***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 12

### Penderfyniadau ac apelau

### PENNOD 2

### Apelau i'r Bwrdd Canolwyr Meddygol

**Cyfeirio apêl i'r bwrdd**

**166.**—(1) Rhaid i'r rheolwr cynllun, pan gaiff hysbysiad o apêl, gyflenwi Gweinidogion Cymru â thri chopi o'r canlynol—

(a) yr hysbysiad o apêl;

(b) yr hysbysiad o'r penderfyniad perthnasol;

(c) y farn, ymateb neu dystiolaeth (yn ôl fel y digwydd) a gyflenwyd i'r apelydd (P); a

(d) pob dogfen arall ym meddiant neu dan reolaeth y rheolwr cynllun, sy'n ymddangos i'r rheolwr cynllun yn berthnasol i'r mater sy'n destun yr apêl.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio apêl i fwrdd o ganolwyr meddygol ("y bwrdd").

(3) Rhaid i'r bwrdd gynnwys dim llai na thri ymarferydd meddygol a benodir gan, neu'n unol â threfniadau a wnaed gan, Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i un aelod o'r bwrdd fod yn arbenigwr mewn cyflwr meddygol sy'n berthnasol i'r apêl.

(5) Rhaid penodi un aelod o'r bwrdd yn gadeirydd.

(6) Pan fo pleidlais ymhlith aelodau'r bwrdd yn rhannu'n gyfartal, rhaid rhoi ail bleidlais neu bleidlais fwrw i'r cadeirydd.

(7) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyfeirio apêl i'r bwrdd, rhaid i Weinidogion Cymru gyflenwi gweinyddwr y bwrdd â thri chopi o bob dogfen a gyflenwyd o dan baragraff (1).

(8) Rhaid i'r bwrdd drefnu bod un o'i nifer ('yr aelod-adolygydd') yn adolygu'r dogfennau hynny.

(9) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau ei adolygiad, rhaid i'r aelod-adolygydd roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'r canlynol—

(a) unrhyw wybodaeth arall y byddai'n ddymunol ei darparu, ym marn yr aelod-adolygydd, er mwyn i'r bwrdd gael gwybodaeth ddigonol at y diben o'i alluogi i benderfynu'r apêl; a

(b) os yw hynny'n wir, bod yr aelod-adolygydd o'r farn y caiff y bwrdd ystyried yr apêl yn wacsaw, yn flinderus neu'n amlwg yn ddi-sail.

(10) Ar ôl cael hysbysiad yr aelod-adolygydd, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r aelod-adolygydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru y byddai'n ddymunol cael gwybodaeth bellach, ei gwneud yn ofynnol bod y rheolwr cynllun yn ymdrechu ei orau i gael yr wybodaeth honno; a

(b) os yw'r hysbysiad yn cynnwys barn o'r math a ddisgrifir ac a grybwyllir ym mharagraff (9)(b), anfon copi ohono at y rheolwr cynllun.

(11) Rhaid i reolwr cynllun sy'n cael copi o farn aelod-adolygydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) anfon copi o'r farn honno at P; a

(b) drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i P—

(i) hysbysu P y gallai fod yn ofynnol bod P yn talu costau'r rheolwr cynllun, pe bai apêl P yn aflwyddiannus, a

(ii) ei gwneud yn ofynnol bod P yn rhoi gwybod i'r rheolwr cynllun, o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, pa un ai yw P yn bwriadu mynd ymlaen â'r apêl neu ei thynnu'n ôl.

(12) Rhaid i reolwr cynllun sy'n hysbysu P o dan baragraff (11)(b) roi gwybod i Weinidogion Cymru ynghylch ymateb P i'r hysbysiad o dan is-baragraff 11(b); a rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r bwrdd yn unol â hynny.